

CYFLWYNIAD

Mae'r defnydd o wastraff pren mewn gwelyau anifeiliaid yn eang. Gwerthir naddion pren meddal sych fel gwelyau ceffylau mewn bagiau ac mae hon yn farchnad broffidiol ar gyfer cynnyrch arbenigol. Defnyddir llwch llif pren meddal weithiau mewn ciwbiglau buchod lle defnyddir pypiau i drosglwyddo'r slyri. Defnyddir sglodion mawr, hyd at 10cm mewn diamedr mewn corlannau awyr agored ar gyfer gwartheg, ond mae pryder cynyddol fod y system hon yn llygru dŵr daear. Defnyddir pilon rhisgl weithiau fel gwelyau, ond nid ydynt yn amsugno'n dda iawn.

SGLODION PREN AR GYFER GWELYAU ANIFEILIAID

Mae'r daflen wybodaeth hon yn ymdrin â'r defnydd o sglodion pren sych fel dewis arall yn lle gwellt o dan ddefaid a gwartheg sydd mewn siediau. Mae wedi ei seilio ar brofiad pum mlynedd gan Grŵp Ffermwyr Pontbren sy'n berchen ar beiriant malu coed Farmi, ac yn ei ddefnyddio. Mae'r Grŵp yn defnyddio pren caled sych sydd wedi cael ei sychu am o leiaf chwe mis cyn ei falu. Y brif ffynhonnell ar gyfer y coed yw gwaith adfer coetiroedd a gwrychoedd, ond defnyddir peth gwastraff melinau llifio ar ffurf coed slab hefyd.

Mae'r peiriant malu coed wedi ei osod i gynhyrchu sglodion tua 3cm - maint stamp. Yn y lle cyntaf, mae sglodion pren wedi eu gwasgaru ar draws lawr y sied i drwch o 10cm. Ychwanegir tua 5cm at hwn wedyn bob 7 - 10 diwrnod ar gyfer defaid ar fwyd sych, neu bob 2 - 3 diwrnod ar gyfer gwartheg ar silwair: Mae hyn yn llawer llai aml nac sydd ei angen gyda gwellt, ac felly mae'n lleihau costau llafur.



Ffig 1: Defaid ar wely sglodion pren

Mae'r ffermwyr sy'n defnyddio'r system wedi bod yn hapus gyda'r canlyniadau o gymharu â gwellt. Mae'r sglodion pren yn llai llafur-ddwys ac mae'r da byw yn aros yn lân gyda llai o achosion o broblemau traed a llai o angen clipio boliau wŷn cyn eu hanfon i'r lladd-dy. Mae ymchwil yng Ngholeg Llysfasi wedi dangos bod gan anifeiliaid ar wely sglodion pren yr un cyfraddau tyfu â'r rhai a gedwir ar wellt.

Ni wnaethpwyd costiau manwl ym Mhontbren, ond rhaid ystyried yr amrywiadau mawr ym mhris gwellt, o gymharu â phris cymharol sefydlog gwastraff coed. Mae costau dangosol o waith a wnaethpwyd gan ADAS yn awgrymu bod sglodion coed yn gweithio allan tua £43 y dunnell.

Nid oes angen trin gymaint ar sglodion coed fel gyda gwellt oherwydd bydd y da byw yn symud y deunydd o gwmpas gyda'u traed, gan olygu nad oes raid iddo gael ei wasgaru mor drwyadl â gwely gwellt.

Ystyriaeth arall wrth ddewis deunydd gwely yw o le daw'r deunydd. Caiff y rhan fwyaf o'r gwellt a ddefnyddir fel gwely anifeiliaid yng Nghymru ei fewnforio o Loegr. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer cost, economi Cymru a'r amgylchedd hefyd oherwydd y pellteroedd cludo hir dan sylw.



Ffig 2: Eginblanhigion coed yn tyfu mewn compost sglodion coed

DEFNYDDIO GWELY SGLODION COED WEDI'I DDEFNYDDIO AR GYFER COMPOSTIO

Pan dynnir y gwely sglodion coed sydd wedi baeddu, mae'n compostio'n gyflym ac ar dymheredd uchel. Mae'r compost wedi cael ei aildefnyddio fel gwely ac fel cyfrwng tyfu ar gyfer eginblanhigion coed ym meithrinfa goed Pontbren. Mae gan CALU broject hefyd sy'n edrych ar gynladwyedd gwely sglodion coed wedi eu compostio fel is-haen ar gyfer tyfu madarch egsotig. Mae'r gallu i aildefnyddio'r deunydd a gompostwyd yn arbennig o ddeniadol. Peth da yw talu unwaith am wely y gellir ei ddefnyddio ddwywaith neu deirgwaith heb gost ychwanegol!

Mae ADAS wedi dadansoddi ymhellach y deunydd a gompostwyd. Mae canlyniadau'n awgrymu fod ganddo botensial fel gwellhâwr pridd neu gyfrwng tyfu (ffrwythlon iawn). Mae'r compost yn sych, yn lân a heb chwyn na phathogenau oherwydd ei dymheredd uchel wrth gompostio. Mae'n haws ei storio a'i drin na gwrtaith wedi'i seilio ar wellt. Ar adeg y dadansoddiad (2004), ystyriwyd y deunydd yn addas ar gyfer cynydu gyda statws organig. Mewn ystyriaethau eraill, gwrtaith buarth wedi'i gompostio yw'r deunydd.

Mae rhagor o arbrofion ar fin dechrau i gymharu gwahanol fathau o goed. Caiff y nodyn hwn ei ddiweddarau pan fo'n briodol.



Ffig 3: Troi pentwr compost

Mae ymchwil yng Nghnada wedi dangos bod sglodion coed yn cadw llawer iawn mwy o nitrogen yn ystod y broses gompostio nac y gwna gwellt. Tra bo nitrogen yn brif faetholyn mewn planhigion, y mae hefyd yn nwy "tŷ gwydr" allweddol. Felly mae cadw nitrogen yn y compost nid yn unig yn golygu fod gan y compost werth maethol uwch, ond mae colledion is o nitrogen anweddol hefyd yn golygu bod llai o effaith ar ansawdd yr aer.

Yr unig anhawster y daethpwyd ar ei draws hyd yn hyn oedd sglodion coed a ddefnyddiwyd o dan anifeiliaid yn blocio tancer slyri.

CRYNODEB

- ✓ Hawdd i'w drin
- ✓ Cost effeithiol os oes gennych eich ffynhonnell coed eich hun
- ✓ Dim problemau llwch
- ✓ Amsugno'n dda iawn
- ✓ Cadw traed anifeiliaid yn lân
- ✓ Newid gwelyau yn llai aml
- ✓ Marchnad posibl ar gyfer compost
- ✗ Blocio tanceri slyri o bosibl

Cyllid ymchwil barhaus ym Mhontbren gan Glasu ac Awdurdod Datblygu Cymru.